

Taid – Dic Jones

Ei ddwylo fel dwy ddeilen, – y mae'r grym

O'r gwraidd wedi gorffen,

Mae 'nhaid nawr yn mynd yn hen,

Ddoe'n graig a heddiw'n gragen.

Ward y Plant – Tudur Dylan Jones

Er bod y nyrsus yma'n ffeind
yn gwenu'n glên bob un,
rwy'n edrych 'mlaen at gael mynd 'nôl
i 'nghartref i fy hun.

Er bod y plant sy'n rhannu'r boen
i gyd yn ffrindiau da,
dwi eisiau bod ymhell o'r ward
yn chwarae pan ddaw'r ha'.

Mae heno'ngur, mae'r nos yn hir,
ac er bod fory'n bell,
mae angen weithiau bod yn sâl
er mwyn cael dod yn well.

Tudur Dylan Jones, *Adenydd* (Cyhoeddiadau Barddas, 2001)

Croen – Sian Northey

Ar ôl i'w mam a'i thad wahanu,
a'r cyffwrdd a'i creodd
ddod i ben am byth,
aeth,
yn ardegyr blin,
yn blentyn briw,
i ystafell
a gadael i'r nodwyddau inc
droi y boen yn ddau air,
yn Dad a Mam
a fydd ymhleth tra bydd
ar ddarn ohoni.

Sian Northey, *Trwy Ddyddiau Gwydr* (Gwasg Carreg Gwalch, 2013)

Annibendod – Hywel Griffiths

Pan fydd y llyfrau'n daclus
a'r Lego yn y bocs,
y lliwiau wedi'u cadw
'da Cyw, y clai a'r blocs,
bydd trefn ar fywyd fel o'r bla'n
ar sofffa fach y lolfa lân.

Ond gwag yw'r carped moethus,
mae bylchau ar y llawr,
tawelwch yw'r taclusrwydd
heb sŵn yn chwarae mawr,
a dim ond sibrwd anadl ddofn
o'r radio bach sy'n lleddfu'r ofn.

Hywel Griffiths, *Llif Coch Awst* (Cyhoeddiadau Barddas, 2017)